national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd

Llyfr Ymchwilwyr

Canolfan Ddarganfod Clore

Croeso i'n casgliad – croeso i chi gyffwrdd!

Mae rhywbeth arbennig o gasgliad yr Amgueddfa ym mhob un o'r droriau darganfod.

Beth am edrych? Beth wnewch chi ddarganfod?

Mae llyfrynnau i'ch helpu chi i ymchwilio i'r gwrthrychau'n fanylach, ac mae ein dehonglwyr arbenigol, cyfeillgar wrth law i ateb eich cwestiynau.

Bydd y gweithgareddau yn y llyfryn hwn yn eich helpu i ddefnyddio eich holl sgiliau ymchwilio.

Defnyddiwch nhw i'ch helpu i dynnu lluniau ac ysgrifennu am eich ymweliad.

Pan fyddwch chi adref, meddyliwch beth fyddech chi'n ei gadw yn eich amgueddfa eich hun.

Er mwyn cadw a gwarchod ein harteffactau amgueddfa, gwnewch yn siŵr bod eich dwylo yn lân cyn codi unrhyw beth. Mae hyn yn helpu i'w cadw nhw mewn cyflwr da.

A does dim unrhyw fwyd na diod i fod yn yr oriel wrth gwrs!

Sut i fod yn archwilydd da

Mae pob archwilydd da yn edrych ar bethau mewn ffordd wahanol.

Wrth i chi archwilio gwrthrych, meddyliwch am rai o'r cwestiynau yma...



Ond beth yw e?

Ydych chi wedi sylwi bod amgueddfeydd yn defnyddio labeli i esbonio a disgrifio gwrthrychau byddwn ni'n eu harddangos?

Yma yng Nghanolfan Ddarganfod Clore rydyn ni'n credu taw hanner yr hwyl yw darganfod pethau drosoch chi'ch hun, dyna beth fyddai archwiliwr yn ei wneud.

Archwiliwch unrhyw ddau beth yn yr oriel ac ysgrifennwch eich labeli eich hun ar eu cyfer nhw. Meddyliwch am beth ydych chi eisiau ei ddweud wrth y byd am y gwrthrychau:

Edrychwch yn fanylach

Edrychwch yn fanwl ar rywbeth. Edrychwch arno o bell. Ydy e'n edrych yn wahanol bob tro?

Defnyddiwch y microsgopau a'r chwyddwydrau i'ch helpu chi i gael golwg agos iawn ar y gwrthrychau.

Dyma ffotograffau o fanylion o rai o'r sbesimenau. Allwch chi weithio allan beth ydyn nhw?

Atebion: Cragen long, amethyst, adain pili-pala, ôl troed anifail, corn carw Lychlyn, bwyell o'r Oes Efydd

Defnyddiwch eich synhwyrau

Pan fyddwn ni'n archwilio gwrthrychau byddwn ni fel arfer yn defnyddio mwy nag un synnwyr. Dewiswch dri gwrthrych a disgrifio sut maen nhw'n teimlo drwy eu cyffwrdd yn unig. Pan fyddwch chi wedi gorffen, tybed os bydd un o'ch ffrindiau yn gallu dyfalu beth yw'r gwrthrych o'r disgrifiad?



1	2	3

Chwarae â Geiriau

AR DRAWS

1) Darnau o garreg a/neu metel sy'n disgyn o'r gofod.
4) Gweddillion planhigion neu anifeiliaid oedd unwaith yn fyw.
5) Casyn esgyrnog sy'n gwarchod y pen.
7) Fydd y mwyn lliw aur yma (sydd weithiau yn cael ei alw'n aur ffyliaid) ddim yn eich gwneud yn gyfoethog.

I LAWR

2) Eitem fyddai'n rhaid ei chael yn y ddeunawfed ganrif – ar gyfer y baned perfaith
3) Aderyn diflanedig sy'n methu hedfan oedd yn arfer byw ym Mauritius.
6) Mae gan y morfil Arctig yma un dant hir fel ysgithr.



Yn y cysgod

Mae Canolfan Ddarganfod Clore yn edrych yn wahanol iawn yn y nos. Silwét yw'r enw ar y siapau cysgodion gwrthrychau.

Allwch chi adnabod y gwrthrychau yma o'u silwét? Mae cliw ar bwys pob un os oes angen help arnoch chi.

Roeddwn i'n help i bobl ffeindio'u ffordd yn y tywyllwch yn oes y Rhufeiniaid



Mamal o Affrica ydw i. Rydw i'n treulio tipyn o amser yn y dŵr felly mae fy llygaid, fy nghlustiau a fy nhrwyn yn uchel ar fy mhen.



Daeth gyrrwr jac codi baw o hyd i mi mewn tomen gladdu yng Nghlocaenog, Sir Ddinbych.

Lamp Olew Rufeinig, Hipopotamws, Wrn Gladdu o'r Oes Efydd

Fy amgueddfa

Archwiliwch eich byd. Llenwch y casyn amgueddfa isod gyda lluniau o'ch h
iddyn nhw ar daith, eich hoff degan, eich pâr cyntaf o esgidiau neu rywbeth

Dyma wobr enillais i am sillafu pan oeddwn i'n saith

noff wrthrychau. Gallan nhw fod yn bethau y gwnaethoch chi ddod o hyd
n wnaethoch chi ei weld heddiw.